# Adolygiad o Ansawdd y Gofal

# 2022

Clwb Gofal

Bryn y Môr

<table>
<tr><th colspan="2">1) Mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth, a bod cyfleoedd ar gael iddynt.</th></tr>
<tr><th colspan="2">Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r dystiolaeth o hynny.</th></tr>
<tr><td>

- Mae strwythurau cadarn yn ei lle ar gyfer sicrhau bod gweithdrefnau y clwb yn cael eu cynnal mewn modd briodol. Mae’r ddwy person cyfrifol yn cydweithio’n agos gyda arweinydd (person in charge) ac yn cyfathrebu drwy sawl cyfrwng er mwyn sicrhau cysondeb a safon i'r clwb gofal.
- Mae’r pobl cyfrifol yn sicrhau bod pob aelod o staff yr clwb yn cael yr hyfforddiant ac yn ymwybodol o’r safonau sydd yn disgwyl ohonynt.
- Mae 59 o blant ar restr y clwb ond nid ydynt yn dod bob sesiwn.
- Y mwyfrif sy’n dod mewn unrhyw sesiwn yw 38 o blant yn mynychu’r clwb ar ddiwrnodau wahanol gyda’r gymhareb staff o 1:8 fel lleiafswm ar gyfer pob dydd.
- Y diwrnodau mwyaf prysur yw dydd Mercher a dydd Iau.
- Mae llais y defnyddiwr (y plant) yn gryf yn y tasgau maent yn dewis gwneud ac fe nodwyd yn yr adroddiad o 2020 bod plant yn “gwneud penderfyniadau effeithiol am ddewisiadau chwarae o ddewis eang o weithgareddau sy’n cael eu cynnig yn y clwb”. Maent yn gwneud hyn trwy y dewisiaudau sydd ar gael iddynt ac felly maent yn gallu dewis trywyddo’n chwarae/dysgu yn annibynol.
- Mae plant yn gallu gofyn i staff am offer sydd angen arnynt.
- Mae’r defnyddwyr yn dechrau’r sesiwn mewn parthau wrth gofrestri ac wrth ddewis byrfryd. Ystyrier dewisiadau bwyta’n iach ac alergedau unigolion.

</td><td>

**Tystiolaeth:**

- Ffeiliau staffio
- Ffeil copi caled yn cael ei gadw yn y swyddfa.
- Teams ar HWB i gadw canllawiau a gwybodaeth berthnasol fel polisïau
- Holiadur rieni
- Holiadur plant
- Holiadur staff
- Rheoli perfformiad staff
- Arsylwadau ffurfiol gan yr arweinwyr
- Ffeiliau disgyblion
- Cyfrifon yr ysgol

</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| <ul><li>Er i reoliadau covid ddod i ben mae disgyblion yn gallu cymysgu gydag eraill ac felly meant yn gallu dewis o’r amrediad o ffrindiau ac adnoddau i'r un cyfle a chyn covid.</li><li>Mae’r trawstoriad o oedranau yn y clwb yn golygu bod y disgyblion hyn yn gallu chwarae gyda a chefnogi y rhai lleiaf, sy’n cefnogi lles y plant.</li></ul>O’r holiadur plant<ul><li>Roedd 100% yn teimlo’n ddiogel yn y clwb</li><li>Roedd 95% yn hapus i ddod i'r clwb. Sylwadau cyson oedd:</li></ul>“Rwy’n hoffi’r bwyd.”<br><br>“All the toys are fun but the best bit is lego.”<br><br>“Rwy’n hoffi chwarae gyda fy ffrindiau<ul><li>Roedd 88% o ddisgyblion yn dweud bod gyda hwy ddigon o ddewis yn y clwb<ul><li>Fe wnaeth 22.5% o ddisgyblion anghytuno gyda’r ddatganiad bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y clwb. Fe wnaeth rhai plant nodi</li></ul></li></ul>“Some children are naughty”<br>“I would like more time on the chrome book”<br><br>Wrth gwneud holiadur rieni mae’r mwyafrif o rieni’n hapus gyda’r Clwb<br><br>Rhai sylwadau oedd:<ul><li>Roedd 100% yn dweud eu bod yn teimlo bod eu plant yn ddigel yn y clwb.</li><li>Roedd 100% yn dweud bod eu plant yn hapus yn y clwb.</li><li>Roedd 100% o rieni yn dweud bod eu plant yn hapus yn y clwb</li><li>Roedd 94%o rieni yn teimlo bod y clwb yn diwallu anghenion eu plant.</li><li>Roedd 94% yn dweud bod staff yn groesawgar.</li></ul> | |

| | |
|---|---|
| Dyma rhai sylwadau:<br>"staff are vigilant at all times"<br><br>"Good staff to child ratio"<br>"Staff are competent"<br><br>"My child always enjoys Clwb, sometimes she complains if I pick her up too early"<br><br>"Both my children thoroughly enjoy their nights in clwb gofal."<br><br>• Mae cynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth yn cael eu trefnu'n wythnosol ac mae unrhyw anghenion ychwanegol – megis ADY neu feddygol yn cael eu rhannu gyda staff. Mae addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer y plant sydd eu hangen.<br><br>• Rhoddir ystyriaeth y wahanol addysgeg yn cynnwys addysgeg y cyfnod sylfaen sydd ei angen a defnyddir yr ardaloedd allanol.<br><br>• Lle po angen, mae asesiadau disgyblion yn cael eu cynnal er mwyn diwallu unrhyw anghenion unigol<br><br>• Mae prosesau rheoli arian yn cael eu cofnodi I bawb yn ddigidol yn cynnwys derbyn talebau gofal plant. Does neb yn talu gydag arian a mae popeth ar lein trwy Squid<br><br>• Mae polisïau addas yn ei lle i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael y sylw addas.<br><br>• Mae ymddygiad disgyblion yn dda ac mae disgwyliad staff o ddisgyblaeth yn dda. Trafodir unrhyw ofidion gyda rhieni.<br><br>• Hysbysir rieni am unrhyw ohebiaeth trwy lythyru, y wefan a neges destun. | |

| Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach? |
|---|
| • Wedi cyfnod arsylwi gwelwyd bod plant yn troi mwy I'r Saesneg na'r Gymraeg – gan bod nifer o'r staff yn siarad Cymraeg – dylid annog y plant I siarad Cymraeg cymaint ag y gallent – system wobrwrwyo ar gyfer y rhaid sy'n ymdrechu i siarad Cymraeg<br>• Hyfforddaint i rai staff newydd ar sut i gefnogi plant ADY ac cefnogi ymddygiad - ymarfer adferol<br>• Mewn ymateb i sylwadau rieni – mae'r clwb nawr yn sicrau bod cyfleoedd gwneud gwaith cartref ar gael i blant. |
| Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur? |
| Parhau gyda datblygiad profesiynol staff.<br>Darparu amserlen gweithgareddau |
| Crynodeb |
| Mae sefyllfa y clwb wedi newid tipyn ers dechrau y flwyddyn a lleihad yn y rheolau rheoli lladaeniad covid wedi dod I ben.  Mae hyn yn golygu bod y clwb wedi gallu cychweldyd I'r trefniadau a fu cyn covid a rhoi cyfleodd I blant rhyngweithio'n llawer fwy rhwydd.  Mae canlyniadau yr holiadurng yn dangos bod plant a'I rheini yn teimlo bod gofal da I ddefnyddwyr y clwb gofal. |

| 2) Mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus. I blant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol. | |
|---|---|
| Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r dystiolaeth o hynny. | |
| • Cynnig amrywiaeth o weithgareddau yn yr awyr agored ac o dan do sy'n hybu iechyd meddwl a mwynhad, ymarfer corfforol a chyfleoedd i ddatrys posau neu wneud gwaith ymchwil ar gyfer eu gwersi.<br>• Plant yn hapus i fynychu'r clwb.<br>• Perthynas dda yn bodoli rhwng y staff a'r plant.<br>• Plant yn cael dewis eu gweithgareddau.<br>• Dewis rhydd neu chwarae gyda'r staff yn opsiynau.<br>• Plant yn hyderus bod oedolyn cyfrifol yno sy'n barod i wrando arnynt.<br>• Cyfle i gymdeithasu gyda phlant eraill ac aelodau staff yn arwain at well sgiliau cymdeithasol a gwell iechyd meddwl. | • Teithiau dysg gan y personau cyfrifol.<br>• Holiaduron plant a rhieni.<br>• Negeseuon ar 'Speakr' (meddalwedd llesiant sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol) yn datgan bod plant yn hapus i ddod I'r ysgol oherwydd eu bod yn mynychu clwb gofal.<br>• Ffeiliau staff a disgyblion |

- Pawb yn teimlo'n ddiogel yn y Clwb.
- Cynigir hyfforddiant i weithwyr y Clwb o ran diogelwch, arwain chwarae, gwella sgiliau Cymraeg.
- Ychwanegu cyfle fwy pendant I gefnogi gwaith cartref
- Roedd 100% o rieni yn dweud bod eu plant yn hapus yn y clwb.
- Roedd 94%o rieni yn teimlo bod y clwb yn diwallu anghenion eu plant.
- Roedd 94% yn dweud bod staff yn groesawgar.
-

**Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?**

- Creu cynllun/bwydlen benodol ar gyfer dewisiadau disgyblion
- Angen sicrhau bod pob aelod staff o'r clwb gofal yn cael y cyfle i ymrfer siarad Cymraeg

**Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur?**

Sicrhau bod y staff sydd yn siarad Cymraeg yn cefnogi y staff sydd ddim. Defnydd o geirfa aml ddefnydd yn cael ie roi I staff di Gymraeg.

Edrych I fusoddi arian I ddatblygu y parthau chware creadigol

**Crynodeb**

Mae llawer o rinweddau gan y Clwb Gofal gyda'r plant yn mwynhau ei fynychu. Maent yn gyffrous ac yn awyddus i ddod i'r Clwb bob amser lle cant amser i ryngweithio ag eraill a chwarae, gan ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, corfforol a meddyliol mewn awyrgylch hapus a diogel sydd yn eu meithrin i fod yn ddinasyddion egwyddorol ac yn unigolion iach a hyderus.

**3) Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod**

**Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a'r dystiolaeth o hynny.**

- Mae staff sydd yn derbyn swydd yn mynd trwy'r broses DBS a safe recruitment.
- Mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng aelodau staff, disgyblion a rhieni.

- Defnydd a monitro o 'My Concern'
- Ffolder datblygid proffesiynol staff a chofnod o dystysgrifau
- Polisïau yn weledol as waith trwy teithiau arsylwi gan y tîm rheoli
- Ffeliau cofnodi

| | |
|---|---|
| • Mae arweinwyr yn sicrhau bod y nifer cywir o staff ar gael i oruchwylio disgyblion.<br>• Mae ffeiliau gwybodaeth manwl ar gael am y disgyblion sydd yn y clwb gofal. Cedwir y wybodaeth hyn mewn man diogel dan glo.<br>• Mae'r prosesau y clwb yn cynnwys gofyn caniatâd y rhieni ar gyfer defnydd o ddata a defnydd o luniau y disgyblion lle po angen.<br>• Mae holl staff yn glanhau yn aml a bron pob un wedi derbyn hyfforddiant ar hylendid. Mae sgôr 5 seren 'food rating' gan y clwb.<br>• Mae hyfforddi blynyddol yn digwydd ar gyfer prosesau Diogelu i holl staff y ddarpariaeth ac fe gadwir trac o pwy sydd wedi derbyn pa hyfforddiant a phryd.<br>• Mae bron pob aelod o'r clwb wedi bod ar hyfforddiant Paediatric First aid'<br>• Mae polisïau y ddarpariaeth ar we fan yr ysgol ac mewn is ran o dan clwb gofal lle gellir holl rhanddeiliaid y clwb gael mynediad i'r polisïau. Mae rhieni yn gallu cael mynediad i bolisïau megis y polisi diogelu neu y polisi cwynion<br>• Mae pob un o'r staff clwb gofal wedi derbyn diweddariad o'r polisi diogelu ar 5/9/22<br>• Mae CM – y person mewn gofal – yn gyfrifol am nodi pryderon trwy 'My Concern' - sef meddalwedd tracio pryderon. Mae y staff nad ydynt wedi cofrestri ar yr meddalwedd yn cofnodi y wybodaeth ar daflen a gellir sganio y daflen yn syth i My Concern.<br>• Mae'r arweinwyr LW a EW wedi derbyn hyfforddiant diogel ond mae angen diweddaruu'r hyfforddiant<br>• Nid oes unrhyw gofidion wedi eu nodi yn ystod y flwyddyn<br>• Mae'r adeilad yn cael ei fonitro'n gyson ac fe ddefnyddiwyd prosesau mewnol gan staff y clwb i dynnu sylw am unrhyw ofidion iechyd a diogelwch.<br>• Mae unrhyw ymwelwyr yn gorfod cofrestri a'i nodi wrth fynedfa'r adeilad – defnyddir system digidol i gofnoi ymwelwyr r y safle. Mae staff yn rheoli yr oedolion | • My Concern<br>• Llyfryn Damweiniau<br>• Ffurfleni HSE monitro ystafelloedd – Ffeil Corporate health and safety and wellbeing yn y swyddfa<br>• Ffeil Tan |

| | |
|---|---|
| wrth iddynt gasglu disgyblion ar diwedd y dydd.<br>• Mae prosesau clir ar sut mae disgyblion yn cael eu cyrchu o ddosbarthiadau I'r clwb gofal.<br>• Mae systemau camerâu yr adeilad yn sicrhau hefyd bod staff yn gallu gweld pwy sydd yn lle a phryd.<br>• Defnyddir 'walkie talkies' rhwng y staff sydd allan ar y buarth i gyfathrebu.<br>• Mae mannau canolig ar gyfer adnoddau cymorth cyntaf a llyfryn i nodi damweiniau. Mae arweinwyr wedi bod ar hyfforddiant 'Management of accidents'<br>• Mae prosesau cynnal a chadw (e.e profi alarwn dan a chynnal ymarfer tan, PAT testing) yn digwydd yn ôl canllawiau ac mae hyn yn cael ei cofnodi mewn mannau briodol yn ffeiliau digidol a chopis caled yn y swyddfa.<br>• Bu ymarfer alarwm dan i'r ddefnyddwyr y clwb.<br>• Bron pob aelod o staff wedi cwblhau y basic health and safety training a fire awareness. | |

Pa feysydd y mae angen i ni eu gwella neu rydym yn dymuno eu datblygu ymhellach?

- Mae angen i'r person in charge diweddaru ei hyfforddiant management of accidents polisi.
- Mae angen i'r arweinwyr diweddaru eu hyfforddiant diogelu
- Angen sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddaint ar adnabod trais yn y cartref.
- Hyfforddi y person I charge I fod yn rhan o'r broses huan werthuso.

Pa gamau penodol y mae angen i ni eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau/datblygiadau yn llwyddiannus, a sut y caiff hyn ei fesur?

- Person in Charge I gysgodi arweinwyr wrth wneud taith dysg a rheoli perfformaid staff y clwb gofal.
- Arweinwyr yn cwblhau y hyffrddiant b a c o'r hyfforddint diogelu.
- Amser yn cael ei roi I bob aelod staff I gbwlhau yr hyfforddaint Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) 2022

Crynodeb

Ar y cyfan mae staff, rhieni a plant yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio y ddarpariaeth. Mae staff wedi ymrwymo i wneud hyfforddiant yn dilyn yr argymelliadau a roddwyd yn yr adroddiad ACG

Ionawr 2020.  Mae prosesau rheoli ac arwain y clwb gofal yn dangos bod diogelu, rheoli yr amgylchedd a hyfforddaint staffio wedi gwella. Ymateb I dargedau a nodwyd yn adroddiad ansawdd 2021:  Sicrhau bod y cymwysterau perthnasol gan staff – Cynnydd llawn yn erbyn y targed hwn.